*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 i'r Aelodau.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Fframwaith Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol CIPFA/Solace (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2022/23 wedi'i nodi yn Atodiad 1 ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Fframwaith. Mae'r blaengynllun gwaith ar gyfer 2023/24 wedi'i gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael adolygiad cam cyntaf ac ail gam gan Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'u gwybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

5 Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo gan y Trysorydd, Cadeirydd yr Awdurdod Tân a'r Prif Swyddog Tân, bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2023.

## ARGYMHELLIAD

6 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23;
(ii) nodi blaengynllun gwaith 2023/24; a
(iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 31 Hydref 2023.

**CEFNDIR**

7 Ers 2010/11 mae'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015 a'i gyhoeddi yn rhan o'u Cyfrifon Statudol.

8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu ac arddangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol wedi'i sefydlu ar draws y sefydliad.

**GWYBODAETH**

9 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethu newydd, Y Fframwaith Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (y Fframwaith). Mae'r Fframwaith wedi'i strwythuro o gwmpas saith egwyddor llywodraethu sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol ac i nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

10 Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi pa drefniadau y mae'r Awdurdod wedi'u gwneud er mwyn sicrhau:

- (i) bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- (ii) bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif yn briodol amdano; a
- (iii) bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac sydd o fudd i bobl leol.

11 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Mae'n rhoi crynodeb o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2023/24.

12 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaengynllun gwaith 23/24 yn cael ei fonitro gan Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn dangos pa drefniadau llywodraethu sydd ar waith i alluogi'r Gwasanaeth i barhau i ymateb ar frys ac i wneud gwaith atal yn y dyfodol. |
| **Cyllideb** | Amherthnasol |
| **Cyfreithiol** | Paratowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau rhagnodedig. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae fframwaith llywodraethu cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |